Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol

16 Mai 2016

Cofnodion Drafft

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion DRAFFT y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 16 Mai 2016 yn Adeilad Gwylwyr y Glannau, Llandwrog

Yn bresennol-
Cynghorwyr Gwyn Owen Jones, Y Fron; Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Robert Jones, Y Groeslon; Bryn Williams, Carmel; Gerwyn Owen , Y Groeslon; Dyfed Williams, Llandwrog; Robert Silyn Jones, Y Groeslon a'r Clerc.

16-05-01arb **1 Croeso'r Cadeirydd**

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Robert Jones am 7.30 yr hwyr gan mai dim ond pump aelod oedd wedi cyrraedd am 7.00 o'r gloch. Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd, gan ddiolch i bawb am fod yn bresennol.

Eglurwyd fod y cyfarfod hwn mewn dau rhan sef yn gyntaf cyfarfod blynyddol y Cyngor i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd, yr ail, y cyfarfod misol arferol.

Aeth yn ei flaen i ddiolch i'r Aelodau am ymddiried ynddo dros y 12mis diwethaf a'i fod wedi bod yn fraint iddo fod yn y gadair.

16-05-02arb **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr David Mark Lewis, Y Fron; Emyr Peris Hughes, Y Groeslon; Gethin Thomas, Llandwrog; Hywel J Owen

16-05-03arb **3 Datgan Buddiant**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

16-05-04arb **4 Cyfethol Aelodau**

Adroddwyd gan y Clerc fod y Rhybudd o'r Sedd Wag Achlysurol wedi ei arddangos ac ar ôl pedwar diwrnod ar ddeg nid oedd cais wedi ei dderbyn gan deg etholwr yn y gymuned neu'r ward am ofyn i gynnal etholiad

Penderfynwyd, yn unfrydol, enwebu'r Aelod canlynol

Aelod dros Ward Carmel - Helen Hughes, Wenallt, Carmel

16-05-05arb **5 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd – derbyn enwebiadau ac ethol ar gyfer 2016-17**

5.1 Cadeirydd
5.2 Is-gadeirydd

Gwnaeth y cyn cadeirydd gynnig enwebiadau am swydd Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2016-17, gan nodi, yn unol â pholisi'r cyngor, mai'r cyn Is-gadeirydd Cynghorydd Bryn Williams yw'r enwebiad cytunedig.

Cofnodion Drafft

Fodd bynnag, mynegodd Cyng. Bryn Williams, er y byddai'n anrhydedd iddo dderbyn yr enwebiad, teimlai oherwydd pwysau gwaith ei fusnes, nad oedd yn deg ar y Cyngor iddo gymryd y gadair yn 2016-17. Diolchodd i'r Cyngor am ymddiried ynddo fodd bynnag.

Awgrymwyd enwebu Cyng. Gerwyn Owen ac yna Cyng. Dyfed Williams ond oherwydd ymrwymiadau gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod nid oedd yr un yn medru derbyn yr enwebiad eleni.

Cynigwyd gan Gwyn Owen Jones i gadw'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd fel yn 2016-17.

Wedi ei roi ymlaen i bleidlais etholwyd Cyng. Robert Jones yn gadeirydd Cyngor Cymuned Llandwrog am y flwyddyn 2016-17 a bydd yn arwyddo Ffurflen Derbyn Swydd ar ddiwedd y cyfarfod blynyddol.

Penderfynwyd ar y canlynol

i) Wedi ei roi ymlaen i bleidlais etholwyd Cyng. Robert Jones yn gadeirydd Cyngor Cymuned Llandwrog am y flwyddyn 2016-17

Cynnig gan Gwyn Owen Jones

Eiliwyd gan Cyng. Robin Silyn Jones

ii) Wedi ei roi ymlaen i bleidlais etholwyd Cyng. Bryn Williams yn Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llandwrog am y flwyddyn 2016-17

Cynnig gan Gwyn Owen Jones

Eiliwyd gan Cyng. Robin Silyn Jones

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn fraint iddo fod yn Gadeirydd y Cyngor. Diolchodd i'r cyn cadeirydd am ei arweinyddiaeth dros y flwyddyn a fu. Rhoddwyd gair o ddiolch i'r Cadeirydd gan Cyng. Alun Wyn Jones

16-05-06arb **6 Enwebu Swyddogion i Bwyllgorau 2016-17**

6.1 Pwyllgor Cyllid
6.2 Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo
6.3 Panel Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd ar y canlynol –

Pwyllgor Cyllid	**Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo**	**Panel Rheolau Sefydlog**
Cadeirydd	Cadeirydd	Cadeirydd
Is-gadeirydd	Is-gadeirydd	Is-gadeirydd
Cyng. Hywel J Owen	Cyng. Helen Hughes	Cyng. Gwyn Owen Jones
Cyng. Robin Silyn Jones	Cyng. Dyfed Williams	Cyng. Robin Silyn Jones
Cyng. Gwyn Owen Jones	Cyng. Alan Patterson	Cyng. Hywel J Owen
Cyng. Emyr Peris Hughes	Cyng. Robert Isaac Jones	Cyng. Robert Isaac Jones
Cyng. Gethin Thomas	Cyng. Alun Wyn Jones	Cyng. Alun Wyn Jones
Cyng. Gerwyn Owen	Cyng. David Mark Lewis	

16-05-07arb **7 Enwebu Aelodau ar gyfer Dyletswyddau Arbennig ac i Gynrychioli'r Cyngor 2016-17**

7.1 Swyddog Hyfforddiant
7.2 Un Llais Cymru

Penderfynwyd ar y canlynol

i) ***Enwebu Cyng. Gwyn Owen Jones fel Swyddog Hyfforddiant y Cyngor.***

ii) ***Gohirio enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar faterion yn ymwneud ag Un Llais Cymru hyd nes cyfarfod Mehefin.***

Cofnodion Drafft

16-05-08arb **8 Enwebu Aelodau ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion 2016-17**

8.1 Ysgol Bro Llifon
8.1 Ysgol Llandwrog

Penderfynwyd ar y canlynol

i) ***Enwebu Cyng. Gerwyn Owen i gynrychioli'r Cyngor ar Corff Llywodraethu Ysgol Bro Llifon.***

ii) Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd gan ofyn a oes posib i'r Cyngor enwebu aelod o'r cyhoedd nad yw yn aelod o'r Cyngo,r i gynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethu Ysgol Llandwrog.

16-05-09arb **9 Rheolau Sefydlog.**

Mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog 2015-16 fel sylfaen i weithio ar gyfer 2016-17 hyd nes y bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r rheolau newydd sydd ar waith, gan gynnwys y Rheolau Ariannol.

16-05-10arb **10 Mandad Banc**

Cadarnhau mai'r aelodau canlynol sydd yn arwyddo sieciau'r Cyngor yn 2016-17

1) David Roberts, Y Clerc
2) Cyng. Robert Silyn Jones
3) Cyng. Gwyn Owen Jones
4) Cyng. Alan Patterson
5) Cyng. Hywel J Owen

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 yr hwyr	
Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
	Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor
Dyddiad -	

Cofnodion Drafft